Mae'r Offeryn Statudol hwn yn cywiro gwallau yn O.S. 2022/564 (Cy. 130) ac fe'i dyroddir yn rhad ac am ddim i bawb y gwyddys iddynt gael yr Offeryn Statudol hwnnw.

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2022 Rhif 993 (Cy. 210)

ADEILADU AC ADEILADAU, CYMRU

Rheoliadau Adeiladu (Diwygio) (Cymru) (Rhif 2) 2022

Gwnaed - - - -	*26 Medi 2022*
Gosodwyd gerbron Senedd Cymru - - - -	*28 Medi 2022*
Yn dod i rym yn unol â rheoliad 1(3)	

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 1 a 34 o Ddeddf Adeiladu 1984(**1**), a pharagraffau 2, 7, 8 a 10 o Atodlen 1 iddi, sydd bellach yn arferadwy ganddynt hwy(**2**).

Wrth wneud y Rheoliadau hyn mae Gweinidogion Cymru yn rhoi sylw i'r materion yn adran 1A(**3**) o'r Ddeddf honno a chyn gwneud y Rheoliadau hyn gwnaethant ymgynghori â Phwyllgor Cynghori Cymru ar Reoliadau Adeiladu a'r cyrff eraill hynny yr ymddengys iddynt eu bod yn cynrychioli'r buddiannau o dan sylw yn unol ag adran 14(7) o Ddeddf Adeiladu 1984(**4**).

(**1**) 1984 p. 55; diwygiwyd adran 1(1) gan adran 1(1) a (2) o Ddeddf Adeiladau Cynaliadwy a Diogel 2004 (p. 22) ("Deddf 2004"). Mewnosodwyd adran (1A) gan adran 1(3) o Ddeddf 2004. Diwygiwyd paragraff 7 o Atodlen 1 gan adran 3 o Ddeddf 2004 ac adran 11 o Ddeddf Newid yn yr Hinsawdd ac Ynni Cynaliadwy 2006 (p. 19); a diwygiwyd paragraff 8 o Atodlen 1 gan adran 3 o Ddeddf 2004 ac adran 40 o Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 (p. 29).

(**2**) Cafodd y swyddogaethau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 1 a 34 o Ddeddf Adeiladu 1984, a pharagraffau 2, 7, 8 a 10 o Atodlen 1 iddi, i'r graddau yr oeddent yn arferadwy o ran Cymru, eu trosglwyddo i Weinidogion Cymru gan erthygl 2 o Orchymyn Gweinidogion Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) (Rhif 2) 2009 (O.S. 2009/3019) ("Gorchymyn 2009") ac adran 54 o Ddeddf Cymru 2017 (p. 4).

(**3**) Mewnosodwyd adran 1A gan adran 2 o Ddeddf 2004.

(**4**) Mewnosodwyd adran 14(7) gan erthygl 8 o Orchymyn 2009.